**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

26 Ionawr 2022

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2022**

Rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn heddiw o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rwy'n bwriadu gosod y rhain a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 28 Ionawr 2022, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Atodir copïau o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") i ddarparu ei bod nawr yn ofynnol i bersonau sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws hunanynysu am gyfnod o 5 niwrnod (yn hytrach na chyfnod o 7 niwrnod). Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud heddiw hefyd yn darparu, pan fo person yn y categori hwn ond ei bod yn ofynnol iddo ynysu yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 28 Ionawr 2022 o ganlyniad i gael hysbysiad i hunanynysu yn dilyn prawf COVID-19 positif, fod y cyfnod hunanynysu yn dod i ben yn unol â rheoliad 6 neu 7 o'r prif Reoliadau fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

Mae peidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael cais i hunanynysu yn unol â'r cyngor ar iechyd y cyhoedd ac am gyfnod nad yw'n hirach na'r hyn sydd ei angen. Bydd hynny'n helpu i liniaru effeithiau absenoldebau estynedig staff ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru; ac yn cysoni'n sefyllfa ni yng Nghymru â'r sefyllfa a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn lleihau unrhyw drafferthion neu ddryswch ar y ffin.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**